

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Mawrth 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

131. DECHRAU'R CYFARFOD

Adroddodd y Maer am farwolaeth drist yn ddiweddar cyn Glerc y Dref, Mr Oscar Morris a chyn Faeres y Rhyl, Mrs Margaret Williams.

Cychwynodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Safodd y cyfarfod mewn tawelwch i gofio am Mr Morris a Mrs Williams.

132. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, B. Mellor a Miss C. L. Williams.

133. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 21ain Chwefror 2018 - Rhifau Cofnod 114-130

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cyngorydd K. R. Jones a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Chwefror 2018 - Rhifau Cofnod 51-53

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Mawrth 2018 - Rhifau Cofnod 54-56

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 7fed Mawrth 2018 - Rhifau Cofnod 117-130
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs. E. M. Chard a **PHENDERFYRWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

134. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad ac yn benodol at agor Joe's Diner a The Realm Store, menter wych yn cael ei rhedeg gan entrepreneuriaid ifanc.

135. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYRWYD cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (1af – 14eg Mawrth 2018)

Cyflenwr	Manylion Cyflenwad	Rhif Taleb	Dyddiad	Swm £
Sunshine Events UK Limited	Stondinau ar gyfer Calan Mai y Maer	451	23/2/18	1,488.00
Gunsmoke Communications	Gwasanaethau digwyddiadau ar gyfer Calan Mai y Maer	452	1/3/18	240.00
Gunsmoke Communications	Ad-dalu eitemau traul ar gyfer digwyddiad Dydd Gwyl Dewi	453	1/3/18	37.87
Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a thynnu ymaith Coeden Nadolig 2017	454	5/3/18	302.40
Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad ar gyfer digwyddiad 'Y Rhyl Wylt' (anfoneb £585 llai nodyn credyd £85)	455	5/12/17 & 14/3/18	500.00
Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad tuag at oleuadau'r promenâd	456	13/3/18	17,275.23
Cyngor Sir Ddinbych	Taliad cyntaf ar gyfer parc dwr y Rhyl	457	14/3/18	150,000.00
Cyfanswm Atodlen B				£169,843.50

a chymeradwywyd yr ychwanegiad canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:

- Sunshine Events UK Limited – stondinau ar gyfer Calan Mai y Maer

136. **ROLAU AELODAU:**

(i) CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL

(ii) CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Cyflwynodd Clerc y Dref y swydd-ddisgrifiadau diwygiedig / newydd ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) fel yr argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg, i'r aelodau eu cymeradwyo.

137. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – PENDERFYNIADAU TERFYNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) ar y camau roedd eu hangen i weithredu penderfyniadau'r panel mewn perthynas â lwfansau'r aelodau, i'r aelodau eu hystyried.

Ychwanegodd Clerc y Dref:

- bod Cyngor Tref y Rhyl yn un o 54 Cyngor Tref a Chymuned gydag incwm blynyddol o fwy na £200,000, gan wneud y cyngor yn gyngor 'Grŵp A'.
- nad oedd cynghorwyr a oedd yn derbyn lwfans Band 1 neu Fand 2 gan Gyngor Sir Ddinbych (e.e. aelodau'r Cabinet) yn gymwys i dderbyn taliadau dan Benderfyniadau 44, 46, 50, 52 a 53.
- y dylai unrhyw gynghorydd sy'n well ganddo wrthod y £150 ei hysbysu mewn llythyr. Mae ffurflen ynghlwm fel atodiad B i'r adroddiad.

Lwfansau Costau a Threuliau

Penderfyniad 44: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yn Grwpiau A a B gynnig taliad i bob un o'u haelodau o £150 y flwyddyn ar gyfer costau a achosir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, nwyddau traul ac ati.

Uwch Rolau

Penderfyniad 46: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yn Grŵp A gynnig taliad o £500 yr un i o leiaf 1 aelod a 5 aelod ar y mwyaf i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y tâl o £150 am gostau a threuliau.

PENDERFYNWYD mai dim ond rolau Maer a Dirprwy Faer sy'n 'uwch rolau'.

Ad-dalu Costau Teithio a Chostau Cynhaliath

Penderfyniad 48: Awdurdodir cynghorau tref a chymuned i wneud taliadau i bob un o'u haelodau mewn perthynas â chostau teithio i fynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn wir gostau teithio gyda chcludiant cyhoeddus neu lwfansau milltired CThEM fel y nodir isod:

- 45c y filltir hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.
- 25c y filltir dros 10,000 milltir.
- 5c fesul milltir fesul teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.
- 24c y filltr ar gyfer beiciau modur preifat.
- 20c y filltir ar gyfer beiciau.

Penderfyniad 49: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod dyletswydd benodol yn gofyn am aros dros nos, caiff awdurdodi ad-daliad treuliau cynhaliath i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf a nodir isod ar sail hawliadau gyda derbynneb:

- £28 fesul cyfnod 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast lle na chaiff ei ddarparu.
- £200 – Dros nos yn Llundain.

- £95 – Dros nos mewn manau eraill.
- £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

Penderfyniad 50: Awdurdodir cyngorau tref a chymuned i dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi digwydd mewn gwirionedd, am fynychu dyletswyddau cymeradwy, fel a ganlyn:

- Hyd at £34.00 ar gyfer pob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr;
- Hyd at £68.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr.

Penderfyniad 51: Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac anghenion cymorth personol hyd at £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a achosir i'r aelodau er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'u dyletswyddau cymeradwy. Ad-delir dim ond ar ôl i'r gofalwr gynhyrchu derbynebion.

Lwfansau Dinesig

Penderfyniad 52: Awdurdodir cyngorau tref a chymuned i ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i'r maer/gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500 i ymgymryd â swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y tâl o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r £500 mewn uwch gyflog os caiff y rhain eu hawlio.

Penderfyniad 53: Awdurdodir cyngorau tref a chymuned i ddarparu taliad Dirprwy Pennaeth Dinesig i'r dirprwy faer/dirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500 i ymgymryd â swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y tâl o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r £500 mewn uwch gyflog os caiff y rhain eu hawlio.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau o'r gostyngiad i Lwfans y Maer blaenorol o £2,992 i £1,500 ac un y Dirprwy Faer o £992 i £500. Gan fod y Maer a'r Dirprwy Faer wedi eu datgan yn 'uwch rolau' y Cyngor Tref, byddai'r taliadau £500 yn cynyddu eu lwfansau i £2,000 ar gyfer y Maer a £1,000 ar gyfer y Dirprwy Faer.

At hyn, roedd Cyllideb Cymorth y Maer, newydd ei sefydlu gan y Cyngor Tref, o £1,990 hefyd ar gael i'r Maer a'r Dirprwy Faer i dalu am docynnau i wahoddiadau dinesig.

Dyletswyddau Cymeradwy

“Mynychu cyfarfod y cyngor neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor y cyngor neu unrhyw gorff arall y mae'r cyngor yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor corff o'r fath.”

*Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
Sir Ddinbych Gynaliadwy
Digwyddiadau hyfforddi*

PENDERFYNWYD cymeradwyo diffiniad statudol dyletswyddau cymeradwy.

Cynghorydd yn peidio â bod yn aelod

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd cyngor na sylw yn yr adroddiad ar adfer lwfansau pro rata gan gynghorydd sy'n mynd yn anghymwys i ddal swydd neu sy'n marw tra yn y swydd.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn paratoi dadansoddiad o'r gwahanol lwfansau fis wrth fis ac adrodd yn ôl i'r Cyngor er ystyriaeth.

Gofynion Cyhoeddi

Adroddodd Clerc y Dref bod y penderfyniadau yn gofyn i'r cyngor gyhoeddi manylion yr holl lwfansau a delir i'r aelodau yn y flwyddyn ariannol flaenorol, erbyn 30ain Gorffennaf bob blwyddyn.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref hefyd yn cyhoeddi cofnodion presenoldeb Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol Chyngor yr aelodau ar yr un pryd â'r lwfansau.

138. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Maer nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

139. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

140. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

141. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

142. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: